

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER

9 Mawrth 2022

AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, S Jones, E Huws, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng E Law-Shui Nicholson, J Earnshaw, C Griffiths, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 09.02.22
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Lon y Fynwent – Mae'r Clerc wedi darganfod y dyfynbrisiau blaenorol: Hogans £13198 ac R G Hire £3700. Cytunwyd i fwrw ymlaen â'r dyfynbris gan R G Hire, y Cyng R G Parry yn ei gynnig a'r Cyng P Roberts yn eilio. Gofynnwyd i'r Clerc gael dyfynbris wedi'i ddiweddarau a bwrw ymlaen os nad oedd yn fwy na £4500.
4.2	Grant ar gyfer y maes Chwarae - Bydd y Clerc yn symud ymlaen gyda chais i'r Loteri Genedlaethol am grant ar gyfer offer chwarae. Bydd hefyd yn cyfarfod â Wickstead Leisure ar y cae chwarae ar 15.03.22 i drafod prisiau. Hefyd gofynnwyd iddo gysylltu â'r ysgol i ofyn beth fyddai'r disgyblion yn hoffi ar y safle
4.3	Lon Salem – A5 - Mae'r Clerc yn ddisgwyl am fwy o wybodaeth gan y Cyngor Sir ynglŷn â'u cynigion. Gofynnwyd iddo gysylltu â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch problemau parcio ym Mro Mynydd ac awgrymu bod Tyddyn Môn yn gwneud cais i'r cyngor am leoedd parcio i denantiaid a staff.
4.4	Dathlu y Jiwibili - Trafodwyd sawl syniad ynglŷn â dathliadau'r Jiwibilî. Dywedodd y Cynghorydd E Law-Shui Nicholson drwy neges bod yr Iorwerth yn hapus i wneud te prynhawn ar thema Jiwibilî. Bydd y Cynghorydd E Huws yn dod â'r mater i fyny mewn cyfarfod yn yr Iorwerth yn wythnos nesaf. Llofnod.....Cadeirydd 20.04.22

	Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyng Nicholason i ofyn iddi siarad â llywodraethwyr yr ysgol i ofyn a all y cyngor wneud cyfraniad i'r ysgol megis talu am hufen iâ ar ddiwedd hanner tymor? Cynigiodd y Cyng P Roberts wneud a rhoi cup cakes i'r disgyblion a disgyblion yr ysgol feithrin.
4.5	Raffle – Trafod yn y cyfarfod nesaf
4.6	Prisiau claddu - Cytunwyd i godi ffioedd mynwent o 100% ar wahân i ffi claddu rhywun allan o'r gymuned - bydd hyn yn £500
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith dros y flwyddyn, gan gynnwys y Clerc
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Dim
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1	Grant Grwp Cynefin - Gwnaeth y Cyng Sioned Jones gais am grant ac mae £200 wedi ei dderbyn
8	MATERION ERAILL
	Dim
9	MATERION ARIANNOL
9.1	Ceisiadau am roddion - Cytunwyd na fydd unrhyw daliadau'n cael eu gwneud
9.2	Cytunwyd i dalu £345 i Anglesey Computer Solutions am gynnal a chadw y wefan 2022-2024
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
10.1	Gor-yrru Bryngwran
	Llofnod.....Cadeirydd 20.04.22